

## Cod Ymarfer Unplygrwydd Ymchwil a Llywodraethu

### Cynnwys

<u>1.</u>	<u>Datganiad egwyddorion</u> .....	3
<u>1.1</u>	<u>Cyflwyniad</u> .....	3
<u>1.2</u>	<u>Amcanion ymchwil</u> .....	3
<u>1.3</u>	<u>Colegoldeb</u> .....	3
<u>2.</u>	<u>Egwyddorion ymchwil</u> .....	4
<u>2.1</u>	<u>Rhagoriaeth</u> .....	4
<u>2.2</u>	<u>Gonestrwydd ac unplygrwydd</u> .....	4
<u>2.3</u>	<u>Didwylledd</u> .....	4
<u>2.4</u>	<u>Atebolrwydd a chyfrifoldeb</u> .....	4
<u>2.5</u>	<u>Trylwyreddr</u> .....	5
<u>2.6</u>	<u>Gofal a pharch</u> .....	5
<u>3.</u>	<u>Ymrwymadau ymchwil</u> .....	5
<u>3.1</u>	<u>Arweinyddiaeth a goruchwyliaeth</u> .....	5
<u>3.2</u>	<u>Data a chofnodion ymchwil</u> .....	6
<u>3.4</u>	<u>Cyhoeddiadau ac awduriaeth</u> .....	8
<u>3.5</u>	<u>Hyfforddiant</u> .....	10
<u>3.6</u>	<u>Cydraddoldeb ac amrywiaeth</u> .....	11
<u>3.7</u>	<u>Gofynion moesegol</u> .....	11
<u>3.7.1</u>	<u>Ymchwil sy'n cynnwys bodau dynol, deunydd dynol neu ddata dynol</u> .....	11
<u>3.7.2</u>	<u>Ymchwil sy'n cynnwys bodau dynol: egwyddorion sylfaenol</u> .....	12
<u>3.7.3</u>	<u>Ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid</u> .....	13
<u>3.8</u>	<u>Ymchwil clinigol</u> .....	14
<u>3.8.1</u>	<u>Y Fframwaith Llywodraethu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol</u> .....	14
<u>3.8.2</u>	<u>Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004 (SI 2004/1031)</u> .....	14
<u>3.8.3</u>	<u>Deddf Meinweoedd Dynol 2004</u> .....	14
<u>4.</u>	<u>Eiddo deallusol</u> .....	15
<u>4.1</u>	<u>Diffiniad a phwysigrwydd</u> .....	15
<u>4.2</u>	<u>Perchnogaeth</u> .....	15
<u>4.3</u>	<u>Diogelu</u> .....	16
<u>5.</u>	<u>Gwrthdaro rhwng buddiannau</u> .....	17
<u>6.</u>	<u>Datganiad i gloi</u> .....	17
	<u>Atodiad 1: Deunydd ffynhonnell a pholisïau a chanllawiau perthynol</u> .....	18
	<u>Atodiad 2: Cyfrifoldebau unplygrwydd ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd</u> .....	21

## **Rhagair**

Bod ymysg y gorau yn y byd yw'r nod fwyaf heriol y gallwn ei gosod i ni ein hunain. Rydym wedi gwneud hynny oherwydd dim ond drwy weithio i gyrraedd y safonau rhyngwladol uchaf un mewn ymchwil, addysgu a gweithgareddau eraill y gallwn wireddu potensial llawn y gymuned academiaidd sydd ym Mhrifysgol Caerdydd. Mae ein gweledigaeth yn adlewyrchu ein gwasanaeth i'r gymdeithas ac rydym yn dilyn ein gweledigaeth gan gredu na ddylai unrhyw un sydd â diddordeb yn y Brifysgol fodloni ar lai o uchelgais na hyn.

Ein bwriad yw anelu at ymchwil, dysgu ac addysgu sy'n rhagori'n rhyngwladol ac yn cael effaith ryngwladol.

Nodweddion ein gweledigaeth yw ymdrechu am ragoriaeth, unplygrwydd ac arloesi ym mhob agwedd ar weithgarwch; dull hynod o gydweithredol; cyfathrebu agored ac effeithiol a diwylliant cynhwysol sy'n seiliedig ar urddas, cwrteisi a pharch.

Mae disgwyl i staff a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd ddilyn y Cod Ymarfer Unplygrwydd Ymchwil a Llywodraethu (y Cod Ymarfer).

Mae egwyddorion arweiniol Prifysgol Caerdydd o ran ei gweithgarwch yn cynnwys: perfformiad academiaidd a phroffesiynol eithriadol; parch at bobl ac amrywiaeth; rhyddid academiaidd; cydnerthedd ariannol; unplygrwydd; a chynaliadwyedd amgylcheddol a chymdeithasol.

Mae'r Brifysgol yn cefnogi ac wedi ymrwymo i Goncordat Ategu Unplygrwydd Ymchwil Prifysgolion y Deyrnas Unedig, yn ogystal â Pholisi a Chod Ymddygiad ar Lywodraethu Ymddygiad Ymchwil Da Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig.

Mae'r Brifysgol yn ymdrechu'n barhaus i gyflawni ymchwil o safon, wedi ei gynnal â'r lefelau uchaf o unplygrwydd ymchwil. Mae gennym bolisiau, gweithdrefnau ac adnoddau hyfforddi i alluogi staff a myfyrwyr i gyflawni hyn. Nod y Cod Ymarfer hwn yw hyrwyddo a chrynhof'r rhain ac amlinellu mewn ffordd gyfleus beth yw ein hethos o ran unplygrwydd ymchwil. Darllenwch y Cod Ymarfer hwn ac ewch i'r gwefannau y mae'n cyfeirio atynt, a helpwch Brifysgol Caerdydd i barhau i gael ei chysylltu â safonau uchaf unplygrwydd ymchwil a chyflawniad academiaidd.

**Yr Athro Hywel Thomas**

**Dirprwy Is-ganghellor Ymchwil, Arloesi a Menter**

## **1. Datganiad egwyddorion**

### **1.1 Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i bob maes pwnc ac i bob aelod o staff a myfyrwyr sy'n ymwneud ag ymchwil yn y Brifysgol, gan gynnwys ei staff a'i myfyrwyr sy'n cynnal ymchwil y tu allan i'r Brifysgol, ond fel rhan o'u rôl yn y Brifysgol, yn ogystal ag unrhyw un nad yw'n gyflogedig gan y Brifysgol ond sydd â chaniatâd i gynnal ymchwil yn y Brifysgol (y cyfeirir atynt o hyn ymlaen fel Ymchwilwyr). Cyfrifoldeb yr Ymchwilwyr yw bod yn gwbl ymwybodol o arfer da cyfredol a gofynion statudol sy'n berthnasol i'w maes ymchwil, a chael eu hyfforddi yn y meysydd hynny. Mae'n gyfrifoldeb ar bob Ymchwilydd i ymgyswrtio â'r Cod Ymarfer hwn a chadw ato. Mae'r Cod Ymarfer hwn wedi cael ei gynllunio i hyrwyddo ymddygiad da mewn ymchwil ym mhob cam o'r prosiect ymchwil, cynorthwyo Ymchwilwyr i gwrdd â gofynion cyfreithiol a moesegol a helpu i atal camymddwyn, er mwyn cynorthwyo Ymchwilwyr i gynnal ymchwil o'r radd flaenaf. Gall unrhyw achos o dorri'r Cod Ymarfer hwn fod yn sail ar gyfer camau disgyblu.

Mae gan bob Ymchwilydd gyfrifoldeb a dyletswydd i fod yn atebol i'r gymdeithas, i'w proffesiwn, i'r Brifysgol ac i noddwyr y gwaith ymchwil, derbyn cyfrifoldeb llawn am broffesiynoldeb a gonestrwydd pob agwedd ar ymddygiad a chyhoeddi eu hymchwil, ac am weithgareddau unrhyw staff neu fyfyrwr dan eu cyfarwyddyd. Mae hyn yn ymestyn i adrodd am achosion o wrthdaro rhwng buddiannau, pa un ai'n wirioneddol neu'n bosibl, neu amheuaeth o gamymddwyn, yn y modd priodol. Rhaid i Ymchwilwyr hefyd dderbyn cyfrifoldeb am gymryd camau i sicrhau diogelwch y rhai sy'n gysylltiedig ag ymchwil, cywirdeb rheolaeth ariannol y prosiect ymchwil, a cheisio darparu'r gwerth gorau posibl am yr arian cyhoeddus neu breifat a fuddsoddir yn y prosiect. Mae'n rhaid cadw at yr holl ofynion cyfreithiol a moesegol a osodir gan y Brifysgol neu unrhyw gorff arall a awdurdodwyd yn briodol.

### **1.2 Amcanion ymchwil**

Prif amcan ymchwil yw dyfnhau ac ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth drwy dulliau arbenigol, cyfrifol a phroffesiynol, gan gynnwys lledaenu canlyniadau drwy gyhoeddi, addysgu, ymchwil cymhwysol ac ymgynghori.

Dylai ymchwil hefyd geisio bodloni'r amcanion ychwanegol a ganlyn:

- i. Hyfforddi Ymchwilwyr newydd mewn dulliau priodol a safonau proffesiynol ymchwil;
- ii. Hyrwyddo buddiannau a manteision ymchwil;
- iii. Sicrhau ymelwa ar ganlyniadau er lles y cyhoedd a budd y Brifysgol a'i staff a'i myfyrwyr.

### **1.3 Colegoldeb**

Mae'r Brifysgol yn gymuned amrywiol, ryngddisgyblaethol o ysgolheigion ac Ymchwilwyr sydd mewn sawl ffordd yn dibynnu ar ei gilydd. Fel sefydliad ac fel unigolion, mae'n bwysig cefnogi'r syniad o golegoldeb effeithiol a gweithredol. Wrth ddatblygu a chynnal prosiectau ymchwil, mae angen i grwpiau ac unigolion fod yn hollol ymwybodol, yn ystod pob cam o'r broses ymchwil, o oblygiadau tymor byr a hir posibl eu camau arfaethedig. Gall ymgymryd â rhai mathau o ymchwil neu gymryd camau penodol effeithio ar yr ymddiriedaeth a'r parch sydd ei angen i feithrin colegoldeb academiaidd creadigol mewn grwpiau ymchwil, Ysgolion, Sefydliadau Ymchwil, Colegau neu'r Brifysgol yn ei chyfanrwydd. Mae angen i Ymchwilwyr fod yn ymwybodol o'r dimensiwn hwn o'u gweithgarwch a gweithredu mewn modd colegol bob amser.

## **2. Egwyddorion ymchwil**

### **2.1 Rhagoriaeth**

Dylai Ymchwilwyr ymdrechu at ragoriaeth wrth wneud ymchwil ac anelu at gynhyrchu a lledaenu gwaith o'r ansawdd uchaf. Nod y Cod Ymarfer hwn yw ategu'r nod hwn.

### **2.2 Gonestrwydd ac unplygrwydd**

Mae cynnal safonau proffesiynol yn rhan sylfaenol o ymchwil. Dylid meithrin diwylliant o onestrwydd a chywirdeb ym mhob maes gweithgarwch ymchwil.

Rhaid i Ymchwilwyr fod yn onest o ran eu gweithredoedd eu hunain ac yn eu hymatebion i weithredoedd Ymchwilwyr eraill. Mae hyn yn cynnwys gonestrwydd wrth gyflwyno nodau, bwriadau a chanfyddiadau ymchwil; wrth adrodd ar ddulliau a gweithdrefnau ymchwil; wrth gasglu data; wrth ddefnyddio a chydabod gwaith pobl eraill; wrth gyfleu dehongliadau dilys a gwneud honiadau y gellir eu cyfiawnhau ar sail canfyddiadau ymchwil. Ni ddylai Ymchwilwyr gamymddwyn na cheisio ei guddio, ac mae ganddynt gyfrifoldeb i roi gwybod am achosion posibl o gamymddwyn mewn modd priodol. Gall ôl-ffeithiau methu ag ymddwyn yn onest yn unrhyw un o'r rhain, neu unrhyw gam gweithredu arall, fod yn eang a gellir ei ystyried yn dramgwydd disgyblu. Mae modd gweld gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer ymdrin â honiadau o gamymddwyn mewn ymchwil academiaidd yn [Atodiad 1](#).

### **2.3 Didwylledd**

Dylai dulliau a chanlyniadau ymchwil fod yn agored i graffu, trafodaeth a dadl. Yn amodol ar ystyriaethau cyfrinachedd a diogelu hawliau eiddo deallusol, dylai Ymchwilwyr fod yn agored ag Ymchwilwyr eraill a'r cyhoedd ynghylch eu gwaith a hyrwyddo cyfnewid agored o syniadau a gwybodaeth. Dylai cyfathrebu fod yn dryloyw ac yn agored wrth ddatgan gwrthdaro rhwng buddiannau; wrth adrodd ar ddulliau casglu data ymchwil; wrth ddadansoddi a dehongli data; wrth sicrhau bod darganfyddiadau ymchwil ar gael yn eang, gan gynnwys rhannu canlyniadau negyddol fel y bo'n briodol; ac wrth gyflwyno gwaith i Ymchwilwyr eraill a'r cyhoedd.

Mae'r Brifysgol yn cefnogi safbwynt Cynghorau Ymchwil y Deyrnas Unedig ar allbynnau a data ymchwil agored. Yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol, moesegol a masnachol, dylai'r holl allbynnau a data ymchwil a gyllidir yn gyhoeddus fod ar gael yn agored mewn modd cyfrifol ac mewn fformat priodol. Er mwyn cydymffurfio â gofynion y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil, dylid adneuo metadata mewn cadwrfa fynediad agored sefydliadol unwaith y bydd y cynnyrch wedi cael ei dderbyn ar gyfer ei gyhoeddi, gyda thestun llawn fersiwn derfynol yr awdur ar ôl iddo gael sylw'r canolwyr yn cael ei adneuo o fewn 3 mis.

### **2.4 Atebolrwydd a chyfrifoldeb**

Cyfrifoldeb yr Ymchwilydd unigol yw diogelu unplygrwydd unrhyw waith ymchwil yn y lle cyntaf. Ei gyfrifoldeb ef / ei chyfrifoldeb hi yw sicrhau bod y gwaith yn cwrdd â'r holl safonau proffesiynol a'r egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon

Dylai Ymchwilwyr sylweddoli yn eu gwaith a thrwy'r gwaith hwnnw mai nhw yn y pen draw sy'n atebol i'r cyhoedd, ac y dylent weithredu yn unol â hynny. Dylai pob Ymchwilydd fod yn ymwybodol o bolisiau a chanllawiau'r Brifysgol a'r gofynion cyfreithiol a pholisi sy'n rheoleiddio maes eu hastudiaeth, a chydymffurfio â nhw, yn enwedig yr egwyddorion sylfaenol sy'n ymwneud â moeseg,

## Terfynol 1.1 Mehefin 2015

gwybodaeth, cyllid ac iechyd a diogelwch. Trowch at [Atodiad 1](#) am ddolenni at ragor o wybodaeth yn y meysydd hyn.

Rhaid i bob Ymchwilydd sicrhau bod y gwaith a wneir yn gyson ag unrhyw gytundeb a thelerau ac amodau sy'n gysylltiedig â'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chynnal yn unol â'r diffiniad yn y cynnig gwreiddiol, bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio at y diben y'i bwriadwyd yn unig, bod adroddiadau'n gywir ac yn eu llunio'n brydlon, ac y cedwir at yr amodau yn ymwneud â chyhoeddi, rheoli data a pherchnogaeth eiddo deallusol. Dylai unrhyw fethiant yn unrhyw un o'r ffyrdd neu'r achosion hyn o gamymddwyn (cyfeiriwch at adran 5) gael eu hadrodd yn unol â gofynion y prosiect a'r Brifysgol.

Dylai Ymchwilyddwyr ddilyn gofynion a chanllawiau unrhyw gorff proffesiynol yn eu maes ymchwil. Dylai Ymchwilyddwyr sy'n aelodau o broffesiwn a reoleiddir ddilyn gofynion a chanllawiau eu proffesiwn.

### 2.5 Trylwyredd

Fel sefydliad a arweinir gan ymchwil, mae'r Brifysgol yn hyrwyddo arfer da mewn ymchwil, gan bwysleisio unplygrwydd a thrylwyredd. Mae dull trylwyr o wneud gwaith ymchwil yn rhan o'r unplygrwydd proffesiynol y mae'n rhaid i bob Ymchwilydd lynu wrtho.

Dylai Ymchwilyddwyr gynnal ymchwil yn unol â'r safonau uchaf o ran trylwyredd yn unol â normau a safonau disgyblu cyffredinol. Dylid cymhwyso trylwyredd wrth gynnal gwaith ymchwil a defnyddio dulliau priodol; wrth gadw at brotocolau y cytunwyd arnynt pan fo hynny'n briodol; wrth lunio dehongliadau a chasgliadau'r gwaith ymchwil; wrth ddilysu'r canlyniadau cyn eu cyhoeddi; ac wrth gyfathrebu'r canlyniadau.

### 2.6 Gofal a pharch

Rhaid ymestyn gofal a pharch at bawb sy'n cymryd rhan mewn ymchwil ac sy'n destun ymchwil, gan gynnwys bodau dynol, anifeiliaid, yr amgylchedd a gwrthrychau diwylliannol. Dylai Ymchwilyddwyr fynd i'r afael ag unrhyw bryder sy'n ymwneud ag urddas, hawliau, diogelwch a llesiant pawb sy'n ymwneud ag ymchwil. Rhaid i'r rhai sy'n ymwneud ag ymchwil hefyd ddangos gofal a pharch tuag at stiwardiaeth ymchwil ac ysgolheictod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rhaid dangos gofal a sylw dyladwy at faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy gydol y broses ymchwil (am ragor o fanylion am hyn a gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, gweler adran 3.6).

## 3. Ymrwymadau ymchwil

### 3.1 Arweinyddiaeth a goruchwyliaeth

Arweinydd y Grŵp/Ymchwilydd Arweiniol prosiect ymchwil neu, yn achos Ymchwilyddwyr sy'n fyfyrwr, prif oruchwyliwr y myfyriwr, sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl Ymchwilyddwyr dan eu goruchwyliaeth/rheolaeth wedi cael gwybod yn briodol am eu cyfrifoldebau dan y Cod Ymarfer hwn, a'u bod yn ymgymryd â phob agwedd ar waith ymchwil yn unol â'i ddarpariaethau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau:

- i. urddas, hawliau, lles a diogelwch unrhyw gyfranogwr ymchwil;
- ii. bod ymchwil yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau (gan gynnwys arfer gorau a gweithdrefnau iechyd a diogelwch), a chymeradwyaeth gan bob corff angenrheidiol cyn dechrau'r gwaith ymchwil (gyda chymeradwyaeth hefyd i unrhyw ddiwygiad arfaethedig i'r protocol y cytunwyd arno);

## Terfynol 1.1 Mehefin 2015

- iii. bod asesiad risg yn cael ei wneud o'r astudiaeth a gynlluniwyd i benderfynu ar y risgiau posibl i'r sefydliad, yr ymchwil, diogelwch a llesiant y cyfranogwyr a'r Ymchwilwyr, a nodi'r gofynion cyfreithiol a moesegol sy'n llywodraethu'r ymchwil [trowch at [Atodiad 1](#) i weld y rhestr wirio a argymhellir ar gyfer Ymchwilwyr];
- iv. bod yr astudiaeth yn cydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a moesegol perthnasol;
- v. ymwybyddiaeth drylwyr o ofynion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a rhannu'r wybodaeth honno â'r rhai dan eu harweinyddiaeth.
- vi. bod pob aelod o'r tîm ymchwil yn gymwys ac yn brofiadol i gyflawni eu swyddogaeth, gan gynnwys sicrhau goruchwyliaeth, cefnogaeth a hyfforddiant digonol i fyfyrwyr ac Ymchwilwyr a'u bod wedi cynnal gwiriadau priodol, e.e. gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a/neu wiriadau Safonol Diogelwch Personél Sylfaenol;
- vii. bod gweithdrefnau yn eu lle i gasglu, storio, rheoli a chadw data o ansawdd uchel yn ddiogel ac, yn amodol ar gyfyngiadau cyfreithiol, moesegol a masnachol, sicrhau bod data o'r fath ar gael ar ôl cwblhau'r prosiect ymchwil. Bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu cofnodi mewn cynllun rheoli data lle bo angen;
- viii. bod yr adroddiadau hyn ar gynnydd ymchwil a chanlyniadau yn cael eu paratoi'n brydlon ac i safon dderbyniol;
- ix. bod canlyniadau ymchwil yn cael eu dosbarthu'n brydlon ac yn cael eu bwydo'n ôl i gyfranogwyr fel bo'n briodol;
- x. bod canfyddiadau yn agored i adolygiad drwy sianeli gwyddonol a phroffesiynol a dderbynnir a bod data ymchwil yn cael ei gofrestru'n briodol i hwyluso mynediad;
- xi. bod trefniadau ar waith i reoli adnoddau ariannol ac adnoddau eraill a ddarperir ar gyfer yr astudiaeth, ac unrhyw eiddo deallusol sy'n codi;
- xii. bod ef/hi yn derbyn y rôl allweddol o ganfod ac atal camymddwyn drwy gymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar unplygrwydd ymchwil sy'n ymwneud â chyhoeddiad penodol;
- xiii. y gwneir darpariaeth ar gyfer rheoli data ymchwil yn barhaus os bydd Ymchwilydd yn y tîm prosiect neu'r myfyriwr sy'n cael ei oruchwylio yn gadael y Brifysgol;
- xiv. lle bo cydweithredu â sefydliadau allanol, bod cytundeb ffurfiol ynglŷn â pherchnogaeth data cyn dechrau'r prosiect.

Disgwylir i Arweinydd Grŵp Ymchwil/Ymchwilydd Arweiniol sefydlu awyrgylch o drefn a chydweithredu yn ei dîm/ei thîm, gan feithrin cyfnewid syniadau mewn ffordd agored a sicrhau bod arferion rheoli cadarn yn bodoli i ddiogelu gonestrwydd ac unplygrwydd yr ymchwil a gaiff ei gynnal. Rhaid i Ymchwilwyr newydd (gan gynnwys myfyrwyr ymchwil) gael mynediad at y Cod Ymarfer hwn, ac at unrhyw ganllaw priodol arall ar arferion gorau.

Mae'n rhaid i Arweinwyr Grŵp Ymchwil/Ymchwilwyr Arweiniol sicrhau nad yw Ymchwilwyr yn cael eu rhoi dan bwysau masnachol neu bwysau o fath arall sy'n atal mynd ar drywydd arferol ymchwiliad trylwyr a gonest.

### 3.2 Data a chofnodion ymchwil

#### Rheoli data a chofnodion ymchwil

Un o egwyddorion sylfaenol arfer da mewn ymchwil yw rheoli data a chofnodion ymchwil yn effeithiol. Bydd y Brifysgol yn darparu arweiniad, hyfforddiant, cymorth technegol a seilwaith i gynorthwyo Ymchwilwyr i reoli eu data a'u chofnodion ymchwil yn effeithiol ac yn unol â'r Cod Ymarfer hwn. Rhaid i Ymchwilwyr sicrhau eu bod yn gwbl ymwybodol o unrhyw bolisi gan gyllidwr, deddfwriaeth berthnasol, polisiau a chanllawiau'r Brifysgol ac arfer gorau penodol i ddisgyblaeth yn ymwneud â rheoli data a chofnodion ymchwil, a chydymffurfio â nhw.

Mae Ymchwilwyr yn gyfrifol am gofnodi'n fanwl, sicrhau ansawdd a rheoli eu data ymchwil. Wrth lunio cynnig, rhaid i Ymchwilwyr ystyried sut byddant yn mynd ati i reoli eu data a chofnodion ymchwil

## Terfynol 1.1 Mehefin 2015

ym mha bynnag fformat drwy gydol oes y prosiect, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n ddiogel, yn cadw cywirdeb a dilysrwydd ac yn parhau i fod ar gael drwy gydol y cyfnod cadw penodedig. Rhaid rhoi sylw dyledus hefyd i ddarparu mynediad at y data ymchwil. Fel arfer da, dylai'r holl brosiectau ymchwil sy'n creu neu'n casglu data gynnwys yr ystyriaethau hyn mewn cynllun rheoli data wedi ei ddogfennu'n ffurfiol. Dylid gweithredu'r Cynllun hwn, a'i ddiweddarau pan fo angen drwy gydol oes y prosiect. Fel rhan o'u Cynllun, dylai Ymchwilwyr sicrhau eu bod wedi asesu'r risgiau sy'n ymwneud â chyfrinachedd, gonestrwydd, argaeledd a chydymffurfio o ran eu data ac wedi defnyddio'r rheolaethau diogelwch priodol. Mae adnoddau perthnasol ar gael drwy wefan rhaglen y Fframwaith Diogelwch Gwybodaeth (trowch at [Atodiad 1](#)).

Yn unol â'r Fframwaith Diogelwch Gwybodaeth, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi (RIS) yw'r Perchennog Asedau Gwybodaeth o ran Gwybodaeth Ymchwil, gan gynnwys data ymchwil. Mae'r Perchennog Asedau Gwybodaeth yn gyfrifol am roi sicrwydd i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth bod y rheolaethau diogelwch sydd ar waith i amddiffyn yr ased yn gyson ag archwaeth risg y Brifysgol a bod risg gwybodaeth yn cael ei reoli'n effeithiol ar gyfer eu hasedau gwybodaeth penodol.

Bydd y Brifysgol yn darparu swm sylweddol o le storio electronig diogel i gefnogi Ymchwilwyr. Mae pob Ysgol/Sefydliad Ymchwil yn gyfrifol am nodi lle bydd angen storio y tu hwnt i'r swm hwn ac ar gyfer gwneud darpariaeth briodol i ddarparu ar gyfer lle storio diogel ar bapur ac yn electronig.

### **Metadata a dogfennaeth**

Rhaid i Ymchwilwyr sicrhau bod data ymchwil a chofnodion yn cael eu creu gyda digon o fetadata a dogfennaeth o ansawdd uchel i esbonio eu tarddiad, eu cynnwys a'u cyd-destun, a phan fydd modd mynd atynt yn allanol, rhaid iddynt fod o fewn cyrraedd hawdd i eraill eu haildefnyddio yn y dyfodol.

Bydd disgwyl i Ymchwilwyr gofrestru manylion eu data ymchwil, a'r darpariaethau ar gyfer cael mynediad ato yn unol â gofynion cyllidwyr ac yn unol ag unrhyw ddull dynodedig gan y Brifysgol. Pan na fydd gan gyllidwyr ofynion yn ymwneud â chofrestru data, anogir Ymchwilwyr o hyd i gofnodi manylion gyda'r Brifysgol.

### **Cadw**

Rhaid cadw data ymchwil yn unol â gofynion cadw'r Brifysgol (fel y nodir yn rhestr cadw cofnodion y brifysgol (trowch at [Atodiad 1](#))) ac unrhyw gyfnod cadw a nodir gan y sefydliad cyllido.

Mae'n rhaid i ddata ymchwil a gafwyd o Dreialon Clinigol Cynhyrchion Meddyginiaethol Ymchwiliol gael eu rheoli a'u cadw yn unol â Gweithdrefnau Gweithredu Safonol y Fframwaith sy'n berthnasol i'r Brifysgol (trowch at [Atodiad 1](#)).

### **Mynediad at ddata a chadw data**

Ar ddiwedd unrhyw brosiect cyllid cyhoeddus, yn amodol ar unrhyw ystyriaeth gyfreithiol, gytundebol a moesegol, rhaid i ddata fod ar gael yn agored mewn modd amserol a chyfrifol. Mae gan Ymchwilwyr hawl i gyfnod cyfyngedig o fynediad breintiedig i weithio ar eu data, i baratoi cyhoeddiadau ac i gynnal archwiliadau masnachol, ond disgwylir y bydd data ar gael ddim hwyrach na chyhoeddi cynnyrch yr ymchwil.

Bydd data ymchwil sy'n profi canfyddiadau ymchwil neu sy'n debygol o fod o ddi-ddordeb ar gyfer ymchwil yn y dyfodol yn cael ei adneuo i'w gadw mewn gwasanaeth neu gadwrfa data Prifysgol, cenedlaethol neu ryngwladol, lle mae ystyriaethau cyfreithiol, cytundebol a moesegol yn caniatáu hynny. Bydd data ymchwil yn cael ei gadw gyda'r metadata a'r dogfennau priodol.

Lle mae data'n cael ei adneuo'n allanol, rhaid bod yn ofalus wrth sicrhau nad yw hawliau'n cael eu neilltuo heb gadw'r hawl i wneud y data sydd ar gael yn agored i'w aildefnyddio, oni bai bod hwn yn

## Terfynol 1.1 Mehefin 2015

amod gwreiddiol yn nyfarniad cyllidol y prosiect ymchwil. Lle nad oes modd i ddata fod ar gael yn eang, dylai Ymchwilwyr roi mynediad i drydydd parti dan gytundebau cyfrinachedd priodol y gellir eu gorfodi'n gyfreithiol i'w galluogi i wirio canlyniadau.

### **Gadael y Brifysgol**

Rhaid i staff ymchwil sy'n gadael y Brifysgol sicrhau bod darpariaethau priodol yn cael eu gwneud o fewn eu Hysgol, eu Sefydliad neu eu Hadran i gadw eu data a'u cofnodion ymchwil yn barhaus, eu storio a lle bo'n berthnasol, darparu mynediad at y data a'r cofnodion. Bydd aelod o staff yr Ysgol/Sefydliad/Adran yn cael ei nodi i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y data a'r cofnodion ymchwil. Yn ddiodyn, bydd y cyfrifoldeb hwn yn dychwelyd i Bennaeth yr Ysgol, yr Adran neu'r Sefydliad Ymchwil os na nodir enw unrhyw aelod arall o staff.

Mae'n rhaid i fyfyrwyr sy'n gadael y Brifysgol sicrhau bod y darpariaethau priodol yn cael eu gwneud o fewn eu Hysgol, eu Sefydliad neu eu Hadran i gadw, storio a lle bo'n berthnasol, darparu mynediad yn barhaus at ddata a chofnodion gwreiddiol eu hymchwil neu gopiâu o'r wybodaeth honno. Bydd aelod o staff yr Ysgol/Sefydliad/Adran yn cael ei nodi i ysgwyddo'r cyfrifoldeb am y data ymchwil a'r cofnodion. Yn ddiodyn, bydd y cyfrifoldeb hwn yn dychwelyd i oruchwyliwr y myfyriwr os na nodir enw aelod arall o staff.

Dylai myfyrwyr sy'n dymuno cadw eu data a'u cofnodion ymchwil gwreiddiol neu gopi o'r wybodaeth ar ôl iddynt adael y Brifysgol sicrhau nad oes unrhyw gyfyngiad yn eu cytundeb cyllido neu'r aseiniadau y maent wedi eu gwneud â'r Brifysgol a fyddai'n eu hatal rhag gwneud hynny. Rhaid i fyfyrwyr ymgynghori â'u goruchwyliwr a gofyn am eu caniatâd cyn cymryd data a chofnodion ymchwil gwreiddiol. Lle mae data personol wedi ei gynnwys yn y cofnodion, mae'n rhaid i fyfyrwyr ymgynghori â Swyddog Diogelu Data'r Brifysgol cyn mynd â'r ddogfennaeth wreiddiol neu gopiâu (am fanylion cyswllt, gweler [Atodiad 1](#)).

### **3.3 Deddf Diogelu Data 1998**

Rhaid i Ymchwilwyr gydymffurfio â thelerau Deddf Diogelu Data 1998 pryd bynnag y byddant yn meddu ar wybodaeth a fyddai'n fodd o adnabod unigolyn byw. Gelwir hyn yn 'ddata personol'. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Ymchwilwyr feddu ar sail briodol i'w galluogi i ddefnyddio data personol at ddibenion ymchwil, ac mae'n nodi egwyddorion y mae'n rhaid eu cymhwyso i ddefnyddio, storio a datgelu'r data personol (caiff storio data ymchwil sylw yn adran 3.2). Mae'r Ddeddf yn diffinio categori arbennig o ddata personol fel data 'sensitif' a chaiff defnydd cyfreithlon o'r data hwn ei gyfyngu ymhellach dan y Ddeddf. Mae data personol sensitif yn cynnwys cyflwr iechyd meddwl neu gorfforol unigolion; eu credoau crefyddol, athronyddol neu wleidyddol; aelodaeth o undeb llafur; eu cofnod troseddol; eu tarddiad hiliol neu ethnig a manylion am eu bywyd rhywiol.

Mae cyfres o nodiadau cyfarwyddyd i Ymchwilwyr sy'n egluro gofynion y Ddeddf Diogelu Data mewn perthynas ag ymchwil (gan gynnwys caniatâd dilys a phwy sy'n gymwys i roi cydsyniad dilys) ar gael (trowch at [Atodiad 1](#)).

### **3.4 Cyhoeddiadau ac awduriaeth**

Mae gan Ymchwilwyr gyfrifoldeb i gyhoeddi a rhannu ymchwil mewn modd sy'n adrodd am yr ymchwil a holl ganfyddiadau'r ymchwil yn gywir a heb ddewis a dethol mewn ffordd a allai fod yn gamarweiniol. Dylid lledaenu canlyniadau'r ymchwil yn eang ar ffurf briodol, a thrwy hynny ganiatáu i'r gymuned yn gyffredinol weld, herio a datblygu canlyniadau ymchwil. Dylai'r holl gyhoeddiadau gynnwys digon o wybodaeth i alluogi Ymchwilwyr eraill i ailadrodd y gweithdrefnau a ddefnyddiwyd yn wreiddiol yn gywir.



## Terfynol 1.1 Mehefin 2015

Dylid cyhoeddi ymchwil lle bo hynny'n bosibl, gan ystyried amodau a bennir gan y corff cyllido a diogelu unrhyw eiddo deallusol neu wybodaeth gyfrinachol (cyfeiriwch at adran 4.1). Mae'n bwysig bod cynnyrch ymchwil yn cael ei adolygu gan gymheiriaid drwy sianeli gwyddonol a phroffesiynol derbyniol. Un eithriad i'r rheol safonol o gyhoeddi'n gyntaf drwy sianel gydnabyddedig fyddai pan fyddai materion iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch difrifol dan sylw. Byddai diogelwch y cyhoedd yn cael blaenoriaeth yn yr achosion hyn. Yn sgil hynny, rhaid i ganfyddiadau ymchwil gofal iechyd yn enwedig gael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl.

Dylai ymchwil a gyhoeddwyd bob amser gynnwys 'Prifysgol Caerdydd' ym maes cyfeiriad yr awdur. Yn y mwyafrif o achosion, dylid darparu data ategol a dylai ymchwil a gyhoeddwyd gynnwys datganiad byr yn amlinellu sut ac ar ba delerau y gellid cael gafael ar y data.

Ni ddylai awduron gyhoeddi mwy nag un papur wedi ei seilio ar yr un set o ddata, ac eithrio lle ceir cyfeiriadau a chydnabyddiaethau llawn a thrylwyr at y papur(au) blaenorol. Rhaid i gyhoeddiad gynnwys cyfeiriadau priodol os yw'n sylweddol debyg i erthygl(au) eraill ar yr un ymchwil. Mae'n rhaid i unrhyw awdur sy'n cyflwyno gwaith tebyg i fwy nag un cyhoeddwr sicrhau bod pob cyhoeddwr yn ymwybodol o hyn pan gyflwynir y gwaith.

Mae'n ofynnol i awduron roi testun llawn fersiwn derfynol yr awdur a adolygwyd gan gymheiriaid ("ôl-brint") eu herthyglau mewn cyfnodolion a thrafodion cynadleddau a gyhoeddwyd yn y gadwrfa sefydliadol ddim hwyrach na 3 mis ar ôl eu derbyn. Lle mae caniatâd hawlfraint cyhoeddwr yn caniatáu ac nad oes unrhyw gyfyngiad o ran cyfrinachedd neu fasnach, bydd y fersiynau hyn yn rhai Mynediad Agored. Ni fydd allbynnau sy'n destun embargo yn cael eu rhyddhau i'r cyhoedd nes bod y cyfnod embargo wedi dod i ben (trowch at [Atodiad 1](#)).

Awduriaeth yw'r dull mwyaf blaenllaw o ddyrannu clod am ddatblygiadau deallusol. Gellir diffinio awdur fel rhywun sydd wedi chwarae rhan fawr yn y gwaith o lunio'r cyhoeddiad. Gall hyn fod drwy:

- i. helpu i synio'r prosiect ymchwil a'i fframwaith gweithdrefnol;
- ii. cymryd rhan yn yr astudiaeth a dehongli data ymchwil;
- iii. drafftio'r cyhoeddiad, neu adolygu ei gynnwys mewn modd beirniadol i ganfod ei werth gwirioneddol;
- iv. cymeradwyo fersiwn derfynol yr erthygl a gaiff ei chyhoeddi.

Nid yw cynorthwyo i gaffael arian neu ddata yn ddigonol i haeddu cael eich cydnabod yn awdur. Nid yw goruchwyliaeth gyffredinol o dîm ymchwil yn ddigonol chwaith. Dylid cydnabod cyfraniadau o'r math hwn yn y testun, ond nid fel awduron. Nid yw'r arfer o awduriaeth anrhydeddus yn dderbyniol.

Mae awdur yn gyfrifol am adolygu a chymryd cyfrifoldeb am ei gyfraniad / ei chyfraniad i'r allbwn cyn cyhoeddi a thrwy hynny sicrhau ei fod ef / ei bod hi'n gyfarwydd â'i gynnwys a'i gyfraniad ef / a'i chyfraniad hi ato. Ar ôl cyhoeddi'r gwaith, dylai'r awduron gefnogi canfyddiadau'r ymchwil ar y cyd: ystyrir unrhyw un a restrir yn gydawdur y cyhoeddiad fel un sy'n cymeradwyo pob rhan o'r allbwn.

Ym mhob agwedd ar ymchwil, rhaid cydnabod swyddogaethau a chyfraniadau cydweithwyr a chefnogwyr eraill y gwaith. Mae hyn yn ymestyn i briodoli diolch i'r corff sy'n cyllido'r prosiect, os yw'n briodol gwneud hynny. Dylai hyn fod yn berthnasol wrth gyhoeddi canfyddiadau ymchwil, a phryd bynnag y gwneir datganiad ynglŷn â'r ymchwil. Dylid cydnabod ffynhonnell y data pan ddefnyddir data gan drydydd parti.

Mae methu â chydabod yn iawn bob cyfraniad uniongyrchol neu anuniongyrchol a wnaed gan bobl eraill yn ymddygiad amhroffesiynol a allai fod yn gyfystyr â chamymddygiad ymchwil academiaidd.

### 3.5. Hyfforddiant

Cyfrifoldeb yr Ymchwilwyr eu hunain yw ymgymryd â hyfforddiant yn yr arferion da cyfredol a'r gofynion statudol sy'n berthnasol i'w maes ymchwil. Cyfrifoldeb y Brifysgol yw sicrhau bod darpariaethau digonol ar gyfer hyfforddi a datblygu er mwyn galluogi staff ymchwil a myfyrwyr ymchwil i ennill sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer eu rôl bresennol, ac i gefnogi datblygiad eu gyrfa yn y dyfodol. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo'n llawn i egwyddorion Concordat 2008 i gefnogi datblygiad gyrfa Ymchwilwyr (trowch at [Atodiad 1](#)) sy'n darparu 'a single, unambiguous statement of the expectations and responsibilities of Researchers, their managers, employers and funders with regard to how research careers should be managed and supported in higher education institutions (p2).'

Mae'n bolisi gan y Brifysgol fod Ymchwilwyr yn cael goruchwyliaeth ddigonol gan eu goruchwylwyr/prif Ymchwilwyr, ynghyd ag adolygiadau rheolaidd o'u cynnydd. Mae adnabod anghenion hyfforddi a datblygu a darparu cyngor ar yrfa yn elfennau allweddol o'r gwerthusiad (ar gyfer staff) ac adolygu cynnydd (ar gyfer myfyrwyr). Cyfrifoldeb yr Ymchwilydd Arweiniol/Goruchwylwr Graddau Ymchwil yw gweithio gyda staff/myfyrwyr ymchwil i nodi eu hanghenion hyfforddi a chofnodi chytundebau ynghylch sut caiff yr anghenion hyn eu diwallu.

Mae'n hanfodol bod goruchwylwyr/prif Ymchwilwyr yn datblygu'r sgiliau priodol mewn perthynas â datblygu eu staff a'u cyfrifoldebau rheoli. Am ragor o wybodaeth am Hyfforddi Goruchwylwyr ac am Fframwaith Arwain a Rheoli Prifysgol Caerdydd, trowch at [Atodiad 1](#).

Bydd hyfforddiant yn y sgiliau sy'n gysylltiedig â gwaith ymchwil yn cael eu darparu ar lefel Ysgol, Sefydliad Ymchwil neu Grŵp Ymchwil yn gyffredinol, fel bo'n briodol. Dylid rhoi sylw arbennig i ddarparu hyfforddiant yn yr holl sgiliau sydd eu hangen ar Ymchwilwyr dibrofiad i wneud eu gwaith ymchwil.

Mae'r Tîm Datblygu Staff yn gyfrifol am gefnogi hyfforddiant staff ar draws y Brifysgol, ac mae aelod dynodedig o staff yn gyfrifol am staff ymchwil. Mae Rhaglen 'Ymchwilydd Caerdydd' yn cynnwys pob gweithdy sgiliau trosglwyddadwy traws-ddisgyblaeth a ddarperir ar gyfer staff ymchwil gan isadran datblygu staff canolog y Brifysgol. Caiff yr hyfforddiant hwn ei drefnu o gwmpas y pedwar parth a nodir yn y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr (a ddatblygwyd gan Vitae): gwybodaeth a galluoedd deallusol; effeithiolrwydd personol; llywodraethu a threfnu ymchwil; ac ymgysylltu, dylanwad ac effaith. Mae gan staff ymchwil fynediad hefyd at y Rhaglen Datblygu Staff gyffredinol, sy'n cael ei chyhoeddi'n flynyddol i bob aelod o staff. Am ragor o wybodaeth am hyfforddiant a datblygu gyrfa i staff ymchwil, trowch at [Atodiad 1](#).

Fel yr amlinellir yn y Cod Ymarfer ar gyfer Graddau Ymchwil, Ysgolion Academaidd sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu myfyrwyr ymchwil yn cael mynediad at hyfforddiant priodol. I'r perwyl hwn, mae ysgolion yn gyfrifol am ddarparu neu gaffael y sgiliau, dulliau a thechnegau ymchwil sy'n benodol i'w disgyblaeth a'u cyd-destun ymchwil lleol.

Mae Coleg Graddedigion y Brifysgol yn darparu sgiliau ymchwil generig, sgiliau proffesiynol a throsglwyddadwy a chyfleoedd datblygu gyrfa i fyfyrwyr ymchwil, sy'n cael eu trefnu o amgylch y pedwar maes a nodir yn y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr (a ddatblygwyd gan Vitae): gwybodaeth a galluoedd deallusol; effeithiolrwydd personol; llywodraethu a threfnu ymchwil; ac ymgysylltu, dylanwad ac effaith. Am ragor o wybodaeth am hyfforddiant a datblygu gyrfa i fyfyrwyr ymchwil, trowch at [Atodiad 1](#).

### 3.6 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae gan Brifysgol Caerdydd ddyletswydd sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, hybu cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da ym mhopeth y mae'n ei wneud, gan gynnwys ymchwil. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn darparu hawliau i unigolion mewn perthynas â gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth ar sail y 'nodweddion gwarchoddedig' dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010<sup>1</sup>. Mae'n rhaid i Ymchwilyddwyr gydnabod dyletswyddau penodol Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol fel corff cyhoeddus hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth, dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac ymdrechu i sicrhau nad oes neb dan anfantais anghyfreithlon yn sgil y ffordd rydym yn cyflawni ein swyddogaethau. Rhaid i Ymchwilyddwyr gadw at y Ddeddf Cydraddoldeb a pholisïau a chanllawiau'r Brifysgol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob agwedd ar eu gwaith.

Ceir canllawiau penodol ar ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn ymchwil ar wefan yr Is-adran Llywodraethu a Chydymffurfiaeth (GOVRN) (trowch at [Atodiad 1](#))

Yn ogystal â'r uchod, mae RCUK yn disgwyl i'r rhai sy'n cael cyllid gan y Cyngor Ymchwil i:

- hyrwyddo ac arwain newid diwylliannol o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- ymgysylltu â staff ar bob lefel i wella hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth;
- sicrhau bod pob aelod o'r gweithlu ymchwil yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi i roi sylw i anghymhellion a rhwystrau anuniongyrchol recriwtio, cadw a chynnydd mewn gyrfaedd ymchwil;
- darparu tystiolaeth o ffyrdd y mae materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu rheoli ar lefel sefydliadol ac adrannol.

Ar ben hynny, mae'r Brifysgol yn mynnu bod y rhai mewn swyddi arweinyddol yn cynnal ymwybyddiaeth drylwyr o ofynion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a rhannu'r wybodaeth honno gyda'r rhai dan eu harweinyddiaeth.

### 3.7 Gofynion moesegol

#### 3.7.1. Ymchwil sy'n cynnwys bodau dynol, deunydd dynol neu ddata dynol

Cyfrifoldeb yr Ymchwilydd yw sicrhau bod yr ymchwil yn cael ei gynnal yn foesegol. Mae'r canllawiau a ganlyn yn nodi'r egwyddorion y dylid cadw atynt yn achos yr holl ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, deunydd dynol neu ddata dynol.

Mae'n rhaid i ymchwil gadw at yr holl ofynion a chanllawiau cyfreithiol a gynhyrchir gan gyrrff priodol, gan gynnwys (ond nid yn gyfyngedig i), y Cod Ymarfer hwn, a'r Cod Ymarfer ar gyfer Ymchwil i Feinweoedd Dynol, Deddf Diogelu Data 1998, Deddf Meinweoedd Dynol 2004, canllawiau gan gyrrff proffesiynol perthnasol neu bwyllgorau moeseg ymchwil perthnasol. Mae'n hollbwysig o safbwynt cyfreithiol a moesegol bod yr holl wybodaeth a geir o waith ymchwil ynglŷn ag unigolion yn cael ei chadw'n hollol gyfrinachol a'i storio'n ddiogel.

---

<sup>1</sup> Dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion gwarchoddedig yw'r seiliau lle mae gwahaniaethu yn anghyfreithlon. Y nodweddion a ddiogelir (adran 4) dan y Ddeddf yw: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

## Terfynol 1.1 Mehefin 2015

Mae'r Brifysgol yn gofyn bod ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, deunyddiau dynol neu ddata dynol yn cael ei adolygu yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol Pwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol oni bai bod y gwaith ymchwil:

- i) yn cael ei adolygu gan bwyllgor moeseg allanol gorfodol, e.e. ymchwil ag anifeiliaid neu ymchwil sy'n cynnwys y GIG, lle mae pwyllgorau moeseg allanol eisoes yn bodoli i ystyried cynigion ymchwil, a lle mae eu defnydd ar gyfer ymchwil o'r fath yn orfodol. Mewn achosion o'r fath nid oes gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol na Phwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (UREC) y grym i roi cymeradwyaeth foesegol i'r cynnig ymchwil;
- ii) yn defnyddio dim ond gwybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ac yn gyfreithlon, e.e. data cyfrifiad, ystadegau am y boblogaeth a gyhoeddir gan adrannau'r llywodraeth a llythrau/dyddiaduron personol mewn llyfrgelloedd cyhoeddus

Mae pob pwyllgor moeseg yn dibynnu ar yr wybodaeth a ddarperir gan yr Ymchwilydd i lywio eu penderfyniadau. Gan hynny, cyfrifoldeb yr Ymchwilydd yw sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i'r pwyllgorau hynny'n gyflawn ac yn gywir.

Os yw'r Ymchwilydd yn ansicr a oes angen adolygiad moesegol, dylid cyfeirio pob ymholiad yn y lle cyntaf at Gadeirydd priodol Pwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol neu Swyddog Moeseg yr Ysgol, a fydd yn ymgynghori, os oes angen, â Phwyllgor Moeseg Ymchwil yr Ysgol neu'r Gwasanaeth Moeseg Ymchwil Cenedlaethol.

Mae gofynion yr adolygiad moeseg ym Mhrifysgol Caerdydd wedi eu cynllunio i ddangos bod Ymchwilwyr wedi ystyried materion moesegol yn ymwneud â chynllun eu hymchwil a'i ymddygiad yn y dyfodol. Bydd y system hon, gan hynny, yn galluogi Ymchwilwyr i wneud cais am gyllid gan y cyrff hynny sydd angen adolygiadau a chyhoeddiadau o'r fath mewn cyfnodolion sy'n gofyn am dystiolaeth o adolygiad moesegol yr un modd. Bydd y Brifysgol yn ymdrechu i gefnogi Ymchwilwyr wrth fyfyrion ar faterion moesegol mewn ymchwil drwy ddarparu cymorth drwy Bwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol, y SRECs, Swyddog Moeseg yr Ysgol a thrwy ddarparu cyfleoedd hyfforddi.

Am ragor o wybodaeth trowch at bolisi a gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer gofynion moesegol ymchwil anghlinigol sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol - Trowch at [Atodiad 1](#)).

### 3.7.2 Ymchwil sy'n cynnwys bodau dynol: egwyddorion sylfaenol

Mewn unrhyw ymchwil sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, rhaid rhoi'r ystyriaeth bennaf i ddiogelwch, hawliau ac urddas y cyfranogwr.

Mae'r Brifysgol yn cydnabod ehangder y methodolegau ymchwil sy'n cael eu defnyddio ar draws y disgyblaethau academaidd, ac y gallai materion ac arferion moesegol amrywio o fewn cyd-destun y methodolegau yn ogystal ag o fewn cyd-destun disgyblaeth. Ym mhob disgyblaeth ymchwil, mae Deddf Diogelu Data 1998 yn mynnu sail gyfreithlon ar gyfer casglu a defnyddio gwybodaeth am gyfranogwyr dynol byw y gellir eu hadnabod mewn ymchwil (gweler adran 3.2.1). Mae caniatâd dilys a gwybodus yn un o'r rhesymau cyfreithlon hyn, ac fel arfer bydd yn angenrheidiol lle mae data personol sensitif yn cael ei gasglu. Er mwyn i ganiatâd testun yr ymchwil fod yn ddilys, rhaid iddo gael ei hysbysu'n llawn a'i roi o'i wirfodd.

Er bod yr egwyddor o ganiatâd hysbys yn ddull pwysig o helpu i sicrhau bod ymchwil yn cael ei gynnal yn foesegol mewn nifer o fethodolegau a disgyblaethau, mae'r Brifysgol yn cydnabod nad yw hi bob amser yn angenrheidiol neu'n briodol, er enghraifft, lle nad oes modd adnabod yr unigolion (a lle nad yw'r Ddeddf Diogelu Data yn gymwys). Lle mae modd adnabod unigolion ond nad yw caniatâd yn angenrheidiol (gan fod sail gyfreithlon arall fel y nodir yn y Ddeddf Diogelu Data yn berthnasol) yna

## Terfynol 1.1 Mehefin 2015

mae'n rhaid i'r defnydd o'r data personol hwn fod yn 'deg' o hyd, a bydd ystyriaethau moesegol yn ganolog wrth asesu tegwch. Pryd bynnag y bydd ymchwil ar unigolion y gellir eu hadnabod yn cael ei ystyried heb ganiatâd a/neu heb fod y testun yn gwybod am hynny, rhaid gofyn am gyngor Swydddog Diogelu Data'r Brifysgol yn yr Is-adran Llywodraethu a Chydymffurfio. Am wybodaeth ynghylch caniatâd sy'n ymwneud â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol, trowch at adran 3.9.4.

Dylid bod yn ofalus wrth gynnal ymchwil â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed, e.e. y rhai sy'n agored i niwed mewn cyd-destunau penodol oherwydd anabledau corfforol neu feddyliol. Dylai Ymchwilwyr gydymffurfio â Deddf Galluedd Meddyliol 2005 ym mhob achos lle na fydd gan y cyfranogwyr ymchwil y galluedd i roi caniatâd dilys yn ystod yr astudiaeth, neu lle byddant o bosibl wedi colli'r galluedd hwnnw. Dylai Ymchwilwyr hefyd fod yn gyfarwydd â pholisi Diogelu Plant ac Oedolion sy'n Agored i Niwed y Brifysgol a glynu wrth y polisi hwnnw. Lle bo'n briodol, rhaid i Ymchwilwyr gydymffurfio ag unrhyw rwymedigaeth ychwanegol fel cael derbyniad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Cyfrifoldeb yr Ymchwilydd Arweiniol yw penderfynu (gyda'r adran Adnoddau Dynol) a oes angen y gwiriadau hyn ar gyfer yr holl Ymchwilwyr dan eu goruchwyliaeth/rheolaeth ac yna sicrhau bod yr unigolion hyn yn cael eu gwirio a'u hyfforddi'n ddigonol. Dylai'r protocol ymchwil roi manylion am rôl a chyfrifoldebau unigolion y mae'r cyfranogwr ymchwil yn ddibynnol arnynt (e.e. rhieni, gofawyr, 'ceidwaid porth'), a dylai nodi sut mae cydsyniad yn cael ei geisio gan y cyfranogwr ('cydsyniad go iawn') neu sut mae darpariaethau Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cael eu rhoi ar waith.

Os bydd Ymchwilwyr o'r farn bod cyfranogwyr dynol mewn ymchwil yn agored i risg neu niwed afresymol, neu os oes pryderon yn ymwneud â defnyddio neu storio deunydd dynol mewn ffordd amhriodol a/neu heb eu trwyddedu, neu ddefnyddio neu storio data personol yn amhriodol, rhaid iddynt roi gwybod i'w rheolwr neu unigolyn priodol arall yn y Brifysgol am eu pryderon, a rhoi gwybod i'r awdurdod rheoleiddio priodol hefyd lle bo angen.

### 3.7.3 Ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid

Rhaid ceisio dewisiadau eraill yn lle defnyddio anifeiliaid mewn ymchwil lle bynnag y bo modd, a dylai Ymchwilwyr allu dangos bod yr holl ddewisiadau eraill wedi cael eu hystyried. Os nad oes modd osgoi cynnwys anifeiliaid, mae'n rhaid pwysu a mesur pryderon lles anifeiliaid yn erbyn y buddiannau posibl o ran gwybodaeth a dealltwriaeth a ddaw yn sgil yr ymchwil. Yn ogystal, wrth ddylunio'r protocol ymchwil i'w ddilyn, dylid ystyried yn barhaus ffyrdd posibl o gymryd lle, lleihau neu fireinio cyfranogiad anifeiliaid. Mae hyn yn golygu:

- i. defnyddio dulliau nad ydynt yn cynnwys anifeiliaid yn lle defnyddio anifeiliaid lle bynnag y bo modd;
- ii. lleihau'r niferoedd angenrheidiol i gael canlyniadau dilys os nad oes modd defnyddio dulliau eraill;
- iii. mireinio'r holl weithdrefnau i leihau niwed ac effeithiau andwyol.

Mae ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid angen cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y pwyllgorau moesegol a rheoleiddio perthnasol. Rhaid cadw at yr holl ofynion cyfreithiol a'r canllawiau a gynhyrchir gan gyrff priodol eraill, yn enwedig rheolaethau'r Swyddfa Gartref drwy'r Ddeddf Anifeiliaid (Gweithdrefnau Gwyddonol). Gellir dod o hyd i fanylion am reoleiddio defnyddio anifeiliaid mewn gweithdrefnau gwyddonol, a'r ddeddfwriaeth gyfredol, ar wefan y Swyddfa Gartref (gweler Atodiad 1).

Bydd ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid angen trwyddedau gan y Swyddfa Gartref ar gyfer y Brifysgol, yr Ymchwilydd a'r prosiect, ac mae modd cael y ffurflenni cais ar gyfer y rhain ar y wefan hefyd. Mae dyletswydd ar yr holl Ymchwilwyr a staff cymorth i gynnal safonau uchel o ofal dros yr anifeiliaid dan sylw yn yr ymchwil. Mae'n ofynnol cadw at lefelau rhagorol o hwsmonaeth a lles anifeiliaid dan

## Terfynol 1.1 Mehefin 2015

oruchwyliaeth filfeddygol. Mae modd cael canllawiau'r Brifysgol ar ofalu am anifeiliaid a'u defnyddio mewn ymchwil, a chynghor ynghylch Trwyddedau'r Swyddfa Gartref, gan y Swyddog Safonau Biolegol.

Os bydd Ymchwilwyr o'r farn bod anifeiliaid sy'n rhan o ymchwil yn agored i risg neu niwed afresymol, mae'n rhaid iddynt roi gwybod i'w rheolwr neu unigolyn priodol arall yn y Brifysgol am eu pryderon, a lle bo angen, bydd yr awdurdod rheoleiddio priodol yn cael gwybod am hyn.

### 3.8 Ymchwil clinigol

#### 3.8.1 Y Fframwaith Llywodraethu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mae'r Fframwaith Llywodraethu Ymchwil yn berthnasol i ymchwil a gynhelir gan y GIG neu drwy ddefnyddio adnoddau'r GIG a allai gael effaith ar ansawdd gwasanaethau'r GIG. Mae adnoddau'r GIG yn golygu cleifion y GIG (gan gynnwys y rhai a recriwtiwyd drwy eu cysylltiad â'r GIG e.e. perthnasau cleifion, y rhai a recriwtiwyd drwy rinwedd eu statws fel cyn-gleifion), meinwe neu ddata cleifion, staff, cyfleusterau neu gymorth.

I weld holl ofynion y Fframwaith a rhagor o ganllawiau ar gynnal ymchwil gyda'r GIG, trowch at [Atodiad 1](#).

#### 3.8.2 Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004 (SI 2004/1031)

Mae Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004 a diwygiadau dilynol yn gosod nifer o gyfrifoldebau cyfreithiol ar Ymchwilwyr a sefydliadau ymchwil sy'n ymwneud ag unrhyw ymchwiliad â chyfranogwyr dynol gyda'r bwriad o:

- i. ddarganfod neu wirio effeithiau clinigol, ffarmacolegol neu ffarmacodeinamig eraill un neu ragor o gynhyrchion meddyginiaethol;
- ii. nodi unrhyw adwaith anffafriol i un neu ragor o gynhyrchion o'r fath, neu;
- iii. astudio amsugno, dosbarthu, metaboledd a/neu ysgarthiad un neu ragor o gynhyrchion o'r fath gyda'r nod o ganfod diogelwch neu effeithlonrwydd y cynhyrchion hynny.

Dan y Rheoliadau, mae'n anghyfreithlon dechrau Treial Clinigol o Gynnyrch Meddyginiaethol Ymchwiliol yn y Deyrnas Unedig nes:

- i. bydd y treial wedi cael ei awdurdodi gan yr Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA); a
- ii. bod pwyllgor moeseg wedi rhoi cymeradwyaeth ffafriol i'r protocol; a
- iii. bod noddwr ar gyfer y treial wedi cael ei gytuno.

Am ragor o wybodaeth am Dreialon Clinigol, trowch at [Atodiad 1](#).

#### 3.8.3 Deddf Meinweoedd Dynol 2004

Daeth Deddf Meinweoedd Dynol 2004 (y Ddeddf Meinweoedd) i rym ar 1 Medi 2006 a sefydlodd yr Awdurdod Meinweoedd Dynol (HTA) i reoleiddio a chynghori ar ddarpariaethau'r Ddeddf. Mae'r Ddeddf Meinweoedd yn cyfeirio at *Ddeunydd Perthnasol*, sef unrhyw ddeunydd, ac eithrio gametau, a gaiff eu tynnu o'r corff sy'n cynnwys celloedd dynol (gan gynnwys cynhyrchion gwastraff a hylifau sy'n cynnwys celloedd dynol, fel gwaed, wrin a phoer). Mae'r Ddeddf Meinweoedd yn darparu fframwaith ar gyfer rheoleiddio tynnu (lle bo'n briodol), storio a defnyddio meinweoedd dynol at Ddibenion

## Terfynol 1.1 Mehefin 2015

Rhestredig penodol, gan gynnwys ymchwil. Mae'r Awdurdod wedi datblygu sawl Cod Ymarfer y mae'n rhaid eu dilyn wrth gasglu, defnyddio neu storio meinweoedd dynol.

Rhaid i'r holl ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd sy'n cynnwys defnyddio meinwe dynol gael ei gofrestru gyda'r Tîm Cydymffurfio â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol a chadw at God Ymarfer Prifysgol Caerdydd ar gyfer Ymchwil Meinweoedd Dynol, Codau Ymarfer yr Awdurdod Meinweoedd Dynol a'r holl ofynion a chanllawiau cyfreithiol perthnasol eraill a gaiff eu cynhyrchu gan gyrff priodol.

Cyfrifoldeb yr Ymchwilydd yw sicrhau a) bod yr holl astudiaethau neu gasgliadau meinweoedd dynol yn cael eu cofrestru gyda'r Tîm Cydymffurfio â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol, a b) bod Codau Ymarfer Prifysgol Caerdydd ar gyfer Ymchwil i Feinweoedd Dynol a holl Godau Ymarfer perthnasol yr Awdurdod Meinweoedd Dynol yn cael eu dilyn.

Mae gwefan Awdurdod Meinweoedd Dynol y Brifysgol (trowch at [Atodiad 1](#)) yn darparu gwybodaeth benodol yn ymwneud â'r safonau disgwylidig o ran casglu, defnyddio a storio meinweoedd dynol ac yn rhoi mynediad at Weithdrefnau Gweithredu Safonol y Brifysgol yn ymwneud â defnyddio meinweoedd dynol. Mae modd cael rhagor o wybodaeth gan y Tîm Cydymffurfio â'r Ddeddf Meinweoedd Dynol ([HTA@Cardiff.ac.uk](mailto:HTA@Cardiff.ac.uk)).

## 4. Eiddo deallusol

### 4.1 Diffiniad a phwysigrwydd

Mae eiddo deallusol (IP) yn gynnwys meddwl, creadigrwydd ac ymdrech ddeallusol. Yn ystod eu gwaith ymchwil, ymgynghori ac addysgu, bydd aelodau staff academiaidd yn aml yn cynhyrchu eiddo deallusol (e.e. darganfyddiadau a dulliau technegol, lluniau, dyluniadau, canlyniadau arbrofol, darnau o ryddiaith a cherddoriaeth). Mae cyrff cyllido'n disgwyl i brifysgolion fasnacheiddio eiddo deallusol sy'n deillio o waith ymchwil y maent wedi ei gyllido (gweler [Atodiad 1](#)).

Gan hynny, mae'n bwysig bod y Brifysgol yn manteisio'n fasnachol ar yr eiddo deallusol a gynhyrchir ganddi, lle bo hynny'n briodol, er mwyn:

- i. ymledu canfyddiadau ymchwil a helpu i wireddu eu gwerth llawnaf;
- ii. cynorthwyo ffyniant economaidd lleol a chenedlaethol;
- iii. creu incwm ychwanegol i'r Brifysgol a'i staff academiaidd;
- iv. ennill bri i'r Brifysgol.

Er nad oes sicrwydd o enillion ariannol yn sgil masnacheiddio eiddo deallusol, lle mae enillion o'r fath yn cael eu gwireddu gall Ymchwilwyr elwa'n ariannol drwy drefniadau rhannu refeniw'r Brifysgol. Mae'r manteision eraill yn cynnwys:

- v. rhagor o gyfleoedd i ymchwilio ar y cyd;
- vi. statws a chydabyddiaeth entrepreneuriaidd;
- vii. y boddhad o wneud cyfraniad cadarnhaol at y gymdeithas.

Ar y cyfle cyntaf dylai Ymchwilwyr ddwyn unrhyw eiddo deallusol a allai fod â gwerth masnachol i sylw'r Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi.

### 4.2 Perchnogaeth

Bydd eiddo deallusol a gynhyrchir drwy weithgareddau ymchwil ac addysgu a gynhaliwyd yn ystod cyflogaeth yn y Brifysgol yn perthyn i'r Brifysgol, ac mae'n rhaid i staff roi gwybod i'r Brifysgol am unrhyw ddyfais neu eiddo deallusol arall sydd â gwerth masnachol posibl.

## Terfynol 1.1 Mehefin 2015

Nid yw myfyrwyr israddedig ac ôl-raddedig yn cael eu cyflogi gan y Brifysgol ac, fel y cyfryw, gallant fod yn berchen ar yr eiddo deallusol maent yn gyfrifol am ei gynhyrchu ar eu pen eu hunain. Mewn rhai amgylchiadau, fodd bynnag, bydd yn ofynnol i fyfyrwr neilltuo ei fuddiant berchnogaeth mewn eiddo deallusol i'r Brifysgol neu i drydydd parti. Mae hyn fel arfer yn berthnasol i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig lle mae telerau cyllid eu hysgoloriaeth yn gofyn am neilltuo buddiant o'r fath. Mewn amgylchiadau eraill, bydd arolygwr y myfyriwr a/neu aelodau eraill o'r grŵp ymchwil y mae'r myfyriwr yn gweithio gyda nhw yn cyfrannu at y gwaith o greu eiddo deallusol. Er mwyn gwneud y gorau o'r posibilrwydd o fasnacheiddio eiddo deallusol yn llwyddiannus, bydd y myfyriwr yn cael ei annog i neilltuo hawliau perchnogaeth i'r Brifysgol ar yr un sail â staff academiaidd (a fydd yn cynnwys cyfran o unrhyw refeniw a gynhyrchir o fasnacheiddio llwyddiannus).

Fel arfer bydd y Brifysgol yn caniatáu i'r awdur fod yn berchen ar yr hawlfraint ar unrhyw waith a gaiff ei gyhoeddi, ac yn ildio unrhyw hawl a allai fod ganddi ar fuddiannau a ddaw yn sgil y cyhoeddi. Mae rhai eithriadau i hyn:

- i. hawlfraint ar ddeunyddiau cwrs at ddiben cwrs sy'n cael ei gynnal neu a gaiff ei gynnal gan y Brifysgol;
- ii. hawlfraint ar unrhyw raglen feddalwedd a gynhyrchwyd yn ystod cwrs arferol cyflogaeth;
- iii. hawlfraint ar unrhyw waith a all fod yn angenrheidiol i amddiffyn hawliau eiddo deallusol y gellir ei ecsbloetio'n fasnachol;
- iv. hawlfraint ar unrhyw waith a gomisiynwyd gan sefydliad allanol lle mae telerau ac amodau'r comisiwn yn ei gwneud yn ofynnol i drosglwyddo'r hawlfraint i'r sefydliad hwnnw.

Gellir ecsbloetio eiddo deallusol neu arbenigedd Prifysgol drwy greu cwmnïau deillio. Mae'r Brifysgol yn annog ac yn cefnogi sefydlu cwmnïau deillio priodol ac mae wedi datblygu nifer o ddulliau cyllido ar gyfer y diben hwn. Bydd y Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi yn gweithio gyda staff wrth ddatblygu cynigion busnes a chael y gymeradwyaeth angenrheidiol gan y Brifysgol. Bydd y Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi hefyd yn helpu i ganfod ffynonellau cyllid ar gyfer cwmnïau deillio. Am ragor o wybodaeth ynghylch sefydlu cwmnïau deillio a mentrau tebyg, cysylltwch â'r Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi.

### 4.3 Diogelu

Dylai Ymchwilwyr ddiogelu eu buddiannau eu hunain, buddiannau'r Brifysgol a buddiannau unrhyw gyllidwr neu gorff sy'n cydweithio mewn perthynas ag Eiddo Deallusol. Yn y rhan fwyaf o wledydd y byd, bydd datgeliad blaenorol yn annylsu unrhyw gais am batent ac yn niweidio buddion masnachol posibl. Gan hynny, ni ddylai Ymchwilwyr ddatgelu syniad i unrhyw barti nad yw'n gyflogedig gan y Brifysgol, ar lafar nac yn ysgrifenedig, nes cymerwyd camau i amddiffyn yr eiddo deallusol. Ar ôl cael y diogelwch priodol, caiff y syniad neu'r canlyniadau eu cyhoeddi yn y ffordd arferol.

Pan gredir bod gan ddarn o ymchwil botensial masnachol, gellir cymryd camau ar unwaith i amddiffyn y syniad drwy ffeilio cais am batent. Er mwyn cael patent, rhaid i ddyfais fod yn newydd, yn cynnwys cam dyfeisgar nad yw'n amlwg ar unwaith ac yn gallu cael ei ddefnyddio'n ddiwydiannol. Y Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi sy'n gyfrifol am reoli cyllideb patent y Brifysgol a bydd yn trafod ac yn cytuno â'r dyfeisiwr/dyfeiswyr y ffyrdd gorau o ddiogelu a manteisio ar yr eiddo deallusol.

University College Cardiff Consultants Cyf (UC3) yw cwmni dal patentau'r Brifysgol, a hwn yw'r cyfrwng ar gyfer ymelwa ar ran y Brifysgol, patentau a hawliau eiddo deallusol eraill. Pan fydd trwyddedu neu gytundeb masnacheiddio tebyg wedi cael ei sicrhau gyda chwmni, bydd y Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi yn sicrhau y cydymffurfir â'r telerau, yn monitro derbyn breindaliadau i'r Brifysgol ac yn trefnu dosbarthu incwm i ddyfeiswyr, Ysgolion a'r Brifysgol.



## 5. Gwrthdaro rhwng buddiannau

Mae gwrthdaro rhwng buddiannau yn wrthdaro rhwng buddiannau preifat a chyfrifoldebau swyddogol unigolyn mewn swydd o ymddiriedaeth. Cyfrifoldeb yr Ymchwilydd unigol yn y lle cyntaf yw rheoli gwrthdaro rhwng buddiannau. Dylai Ymchwilyddwyr gydnabod y gallai gwrthdaro rhwng buddiannau gael effaith negyddol ar ymchwil. Y gofyniad sylfaenol yw bod gwrthdaro rhwng buddiannau, boed yn wirioneddol neu'n bosibl, yn cael ei nodi, ei ddatgan ac yn cael sylw cyn gynted ag y daw i'r amlwg. Cyfrifoldeb yr holl unigolion sy'n ymwneud â gwaith ymchwil yw nodi a datgan gwrthdaro rhwng buddiannau. Dylai Ymchwilyddwyr gydymffurfio â pholisi'r Brifysgol ar fynd i'r afael gwrthdaro rhwng buddiannau, yn ogystal ag unrhyw ofyn allanol sy'n ymwneud â gwrthdaro rhwng buddiannau. Fel arfer, bydd hyn yn cael ei ddatgelu i Bennaeth yr Ysgol berthnasol ac yna bydd yr unigolyn dan sylw yn cydymffurfio â'u cyfarwyddyd. Os oes amheuaeth, dylid ei hystyried yn arfer gorau yn y lle cyntaf ddatgelu unrhyw wrthdaro posibl rhwng buddiannau a gofyn am gyngor gan y Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi.

Am ragor o wybodaeth, trowch at Bolisi a Chanllawiau'r Brifysgol ar Wrthdaro rhwng Buddiannau (trowch at [Atodiad 1](#)).

## 6. Datganiad i gloi

Mae'r Cod Ymarfer Unplygrwydd Ymchwil a Llywodraethu hwn yn anelu at wella diwylliant ymchwil proffesiynol, agored a gonest sydd eisoes yn amlwg yn y Brifysgol, heb amharu ar fynd ar drywydd gwell gwybodaeth a dealltwriaeth yn sylfaenol.

Rhaid cydymffurfio â phob safon allanol sy'n berthnasol i'r ymchwil ac unrhyw ofyn perthnasol gan randdeiliaid, yn ogystal â chyfraith gyffredin y Brifysgol a rhwymedigaethau statudol.

<b>Cydnabyddiaeth</b>	
Mae Prifysgol Caerdydd yn cydnabod yn ddiolchgar bod y sefydliadau a ganlyn wedi llunio rhai agweddau ar y Cod Ymarfer hwn:	
Prifysgol Caeredin	Cod Ymarfer Ymchwil
RCUK	Polisi a Chod Ymddygiad RCUK ar Lywodraethu Ymddygiad Ymchwil Da
NISCHR	Fframwaith Llywodraethu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
UK Research Integrity Office	Cod Ymarfer ar gyfer Ymchwil: Hyrwyddo arferion da ac atal camymddwyn
Prifysgolion y Deyrnas Unedig	Y Concordat Ategu Unplygrwydd Ymchwil

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch ynglŷn â'r Cod Ymarfer hwn, cysylltwch â [resgov@cardiff.ac.uk](mailto:resgov@cardiff.ac.uk)

## Atodiad 1: Deunydd ffynhonnell a pholisïau a chanllawiau perthynol

### **2.2 Gonestrwydd ac unplygrwydd**

- Gweithdrefnau'r Brifysgol ar gyfer **Ymdrin â Honiadau o Gamymddwyn** mewn Ymchwil Academaidd  
<http://www.cardiff.ac.uk/govrn/cocom/academic/index.html>

### **2.3 Didwylledd**

- Polisi Cyngorau Ymchwil y Deyrnas Unedig ar Fynediad Agored  
<http://www.rcuk.ac.uk/research/openaccess/>
- Polisi Cyngorau Ymchwil y Deyrnas Unedig ar Ddata  
<http://www.rcuk.ac.uk/research/datapolicy/>

### **2.4 Atebolrwydd a chyfrifoldeb**

- Datganiad Polisi'r Brifysgol ar **Ddiogelwch, Iechyd a'r Amgylchedd**  
<http://www.cf.ac.uk/osheu/safety/index.html>
- **Rheoliadau Ariannol** y Brifysgol  
<http://www.cardiff.ac.uk/fince/resources/FinRegs2012.pdf>

### **3.1 Arweinyddiaeth a goruchwyliaeth**

- Rhestr wirio a argymhellir gan Swyddfa Unplygrwydd Ymchwil y Deyrnas Unedig ar gyfer Ymchwilwyr  
<http://www.ukrio.org/wp-content/uploads/UKRIO-Recommended-Checklist-for-Researchers.pdf>

### **3.2 Rheoli data a chofnodion ymchwil**

- Canllawiau'r Brifysgol ar **Reoli Data a Chofnodion Ymchwil**  
<http://www.cardiff.ac.uk/govrn/cocom/recordsmanagement/guidanceleaflets/index.html>
- Y Rhaglen **Fframwaith Diogelwch Gwybodaeth**  
<http://sites.cardiff.ac.uk/isf/>
- Tudalennau gwe **Rhaglen Rheoli Data a Gwybodaeth Ymchwil** y Brifysgol  
<http://www.cardiff.ac.uk/insrv/researchdata/index.html>
- **Polisi Cadw Cofnodion**  
<http://www.cardiff.ac.uk/govrn/cocom/recordsmanagement/recordsretention/recordreten.html>
- **Gweithdrefnau Gweithredu Safonol Fframwaith y Brifysgol** ar gyfer Treialon Clinigol Cynhyrchion Meddygol Ymchwiliadol  
<http://www.cardiff.ac.uk/racdv/resgov/forms/forms-procedures-sops-and-guidelines.html>

### **3.3 Deddf Diogelu Data**

- Canllawiau'r Brifysgol ar **Ddiogelu Data i Ymchwilwyr**  
<http://www.cardiff.ac.uk/govrn/cocom/accinf/dataprotection/datap/dpresearchers/dpresearch.html>
- Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data  
<http://www.cardiff.ac.uk/govrn/cocom/accinf/dataprotection/datap/index.html>

### **3.4 Cyhoeddiadau ac awduriaeth**

- Cadwrfa Sefydliadol y Brifysgol (ORCA)  
<http://orca.cf.ac.uk/>
- Polisi'r Brifysgol ar **gyhoeddiadau mynediad agored**  
<http://www.cardiff.ac.uk/insrv/forresearchers/openaccess/policy/index.html>

## Terfynol 1.1 Mehefin 2015

- Canllaw'r Brifysgol ar roi eich thesis ar-lein  
<http://learning.cf.ac.uk/quality/pgp/code/thesis-preparation-and-examination/uploading-your-thesis-to-orca-important-information/>
- Y Pwyllgor Moeseg Cyhoeddiadau (COPE)  
<http://publicationethics.org/>

### **3.5. Hyfforddiant**

- **Concordat Ategu Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr**  
<http://www.vitae.ac.uk/policy-practice/505181/Concordat-to-Support-the-Career-Development-of-Researchers.html>
- **Gweithdrefnau Adolygu Cynnydd y Brifysgol**  
<http://www.cardiff.ac.uk/humrs/training/perfreview/index.html>
- **Fframwaith Arwain a Rheoli**  
<http://www.cf.ac.uk/humrs/training/perfreview/appraisal/Cardiff%20University%20Leadership%20&%20Management%20Framework.pdf>
- **Rhaglen Datblygu Ymchwilwyr**  
<https://www.vitae.ac.uk/researchers-professional-development/about-the-vitae-researcher-development-framework>
- **Hyfforddiant i Staff Ymchwil**  
<http://www.cardiff.ac.uk/researchstaff>  
<http://www.cardiff.ac.uk/humrs/training/programme/index.html>
- **Hyfforddiant i Ôl-raddedigion**  
<http://www.cardiff.ac.uk/ugc/training>

### **3.6 Cydraddoldeb ac amrywiaeth**

- **Tudalennau gwe a pholisi'r Brifysgol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth**  
<http://www.cardiff.ac.uk/govrn/cocom/equalityanddiversity/index.html>
- **Cydraddoldeb ac Ymchwil**  
<http://www.cardiff.ac.uk/govrn/cocom/equalityanddiversity/equalityandresearch/equality-and-research.html>

### **3.7 Gofynion moesegol**

- **Ymchwil sy'n cynnwys Bodau Dynol, Deunydd Dynol neu Ddata Dynol ym Mhrifysgol Caerdydd**  
<http://www.cardiff.ac.uk/racdv/ethics/index.html>
- **Gweithdrefnau Pwyllgor Moeseg Ymchwil Prifysgol Caerdydd**  
<http://www.cardiff.ac.uk/racdv/ethics/urec/index.html>
- **Ymchwil sy'n cynnwys anifeiliaid**  
<https://www.gov.uk/research-and-testing-using-animals>

### **3.8 Ymchwil clinigol**

- **Y Fframwaith Llywodraethu Ymchwil Iechyd a Gofal Cymdeithasol**  
<http://www.cardiff.ac.uk/racdv/resgov/governance/index.html>
- **Rheoliadau Meddyginiaethau i'w Defnyddio gan Bobl (Treialon Clinigol) 2004**  
<http://www.cardiff.ac.uk/racdv/resgov/clintrials/index.html>
- **Gwefan Meinweoedd Dynol y Brifysgol**  
<http://www.cf.ac.uk/govrn/cocom/humantissueact/index.html>

## **4. Eiddo deallusol**

- **Gwasanaethau Ymchwil ac Arloesi'r Brifysgol**  
<http://www.cardiff.ac.uk/racdv/techtransfer/index.html>

Terfynol 1.1 Mehefin 2015

**5. Gwrthdaro rhwng buddiannau**

- Canllawiau'r Brifysgol ar wrthdaro rhwng buddiannau (<http://www.cf.ac.uk/humrs/staffinfo/disclosure/index.html>)

Terfynol 1.1 Mehefin 2015

## **Atodiad 2: Cyfrifoldebau unplygrwydd ymchwil ym Mhrifysgol Caerdydd**

[Organogram to be inserted when available]